YR AELOD CABINET DROS ADNODDAU

DYDD GWENER, 9 RHAGFYR 2022

PRESENNOL Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)(Yn rhithwyr)

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
J. Jones, Pennaeth Adfywio
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod
- 10.00 - 10.20 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR PENDERFYNIADAU Y CYFARFOD A GYNHALWYD AR Y 17EG TACHWEDD 2022

PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2022 yn gofnod cywir.

3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. CWMNI BUDDIANNAU CYMUNEDOL NURTURE MAGU, Y GANOLFAN MAGU, CAERFYRDDIN

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad oedd yn argymell rhoi cefnogaeth i Nuture Magu i barhau i weithredu o hen Ganolfan Ddydd Myrddin sy'n eiddo i'r Cyngor, gan gydnabod gwerth Nurture Magu i'r gymuned.

Rhoddodd y Pennaeth Adfywio wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r adroddiad ac atebodd unrhyw gwestiynau a godwyd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

_____ _____

CHAIR **DATE**